# SL(5)251 – Gorchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Rhwymedigaethau) (Cymru) 2018

## Cefndir a Phwrpas

Mae Awdurdod Iechyd Arbennig, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ("AaGIC"), wedi cael ei sefydlu o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Bydd prif swyddogaethau AaGIC yn ymwneud â chynllunio, comisiynu a chyflenwi addysg a hyfforddiant ar gyfer personau sy'n gyflogedig, neu sy'n ystyried dod yn gyflogedig, mewn gweithgaredd sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn cychwyn ar 1 Hydref 2018. Mae nifer o'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Wasanaeth y Gweithlu, Addysg a Datblygu yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo staff (erthygl 3) ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau (erthygl 4) o Ymddiriedolaeth GIG Felindre i AaGIC.

Mae erthygl 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo data, cofnodion a gwybodaeth.

Mae erthygl 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhad pethau a wneir gan neu mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Medi 2018**